



COLEG Sir Benfro
Pembrokeshire COLLEGE

Dewiswch
eich
gweledigaeth



CYRSIAU A GYRFAOEDD

**Canllaw i Ymadawyr Ysgol
2026/27**

colegsirbenfro.ac.uk

Credwch **FWY**. Dysgwch **FWY**. Byddwch **FWY**.

Credwch
FWY.
Dysgwch
FWY.
Byddwch
FWY.

Hi | Hello | Shwmae | Hey | Hola
Croeso

Mae eich taith yn
dechrau YMA...



**Edrychaf ymlaen
at eich croesawu i
Goleg Sir Benfro, lle
mae eich dyfodol yn
dechrau!**

FF

**Po fwyaf y byddwch chi'n
ei ddarllen, y mwyaf o bethau
y byddwch chi'n eu gwybod,
y mwyaf y byddwch chi'n ei
ddysgu, y mwyaf o leoedd y
byddwch chi'n mynd iddyn nhw.**

Dr. Seuss

Yng Ngholeg Sir Benfro, does dim terfyn ar y
byd!

Beth bynnag yw eich angerdd, rydym yma
i sicrhau eich bod yn derbyn profiad dysgu
eithriadol sy'n eich paratoi ar gyfer llwyddiant.

P'un a ydych yn breuddwydio am feistrol
coginio proffesiynol, neu blymio'n ddwfn i
fyd peirianeg fecanyddol, byddwch yn cael
canolbwyntio ar bwnc sy'n eich cyffroi'n fawr.

Gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf a thiworiaid
sy'n dod â phrofiad diwydiant go iawn i'r ystafell
ddosbarth, rydym wedi ymrwymo i ddatgloi eich
potensial a'ch arfogi â'r sgiliau a'r arbenigedd
y bydd eu hangen arnoch i symud ymlaen i
astudio ymhellach neu i gychwyn eich gyrfa.

Pan fyddwch yn dewis Coleg Sir Benfro, nid dim
ond dysgwr arall ydych chi - rydych yn cael eich
trin fel oedolyn sy'n barod i wneud eich marc.
Byddwn yn darparu addysgu o'r radd flaenaf,
cefnogaeth ddiysgog ac arweiniad arbenigol i'ch
helpu i ffynnu. Y cyfan a ofynnwn yn gyfnewid
yw eich bod yn dod â'ch hunan orau: anelu at
bresenoldeb o 100%, aros yn ymrwymedig i'ch
cwrw a manteisio ar bob cyfle a roddwn o'ch
blaen.

Dr Barry Walters
Pennaeth

Pam dylwn i ddewis y COLEG?

CYFLEUSTERAU O'R RADD FLAENAF
Rhai o'r adnoddau a'r cyfleusterau dysgu gorau yng Nghymru.

RHWYDWAITH TRAFNIDIAETH EANG
Mae ein rhwydwaith trafniadaeth yn rhedeg ar hyd a lled y sir gan ei gwneud hi'n hawdd i chi gyrraedd y Coleg.

PROFIAD GWAITH
Er mwyn eich paratoi ar gyfer y gweithle, byddwch yn ymgymryd â lleoliadau profiad gwaith neu'n gweithio ar friffiau yn y byd go iawn.

CEFNOGAETH EITHRIADOL
Mae gan bob dysgwr fynediad at ystod gynhwysfawr o wasanaethau cymorth.

CYSYLLTIADAU CYFLOGWYR
Mae gennym gysylltiadau â channoedd o gyflogwyr lleol ar draws llu o sectorau diwydiant i sicrhau bod ein cysiau'n dysgu'r sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

FFREUTUR, STARBUCKS A LITTLE FRESH
Pa bynnag amser y byddwch chi'n cymryd eich seibiannau, fe welwch chi bob amser rywle i gael diod neu fyrbryd i danio'ch dysgu!

YR HWB A'R HAFAN
Mae'r Hwb a'r Hafan yn ddau ofod astudio pwrpasol ar gyfer astudio unigol, grŵp neu â chymorth. Mae'r llyfrgell hefyd yn cynnig gofod astudio tawel ynghyd ag amrywiaeth o lyfrau a chyfnodolion i gefnogi eich astudiaethau. Gallwch hefyd fenthyl gliniadur, wrth ddangos cerdyn adnabod, i barhau â'ch gwaith cartref neu aseiniadau tra byddwch yn y Coleg.

CORFF IACH | MEDDWL IACH
Mae eich iechyd a'ch lles yn hynod bwysig. Gallwch ymuno ag un o'n Hacademiau Chwaraeon neu fanteisio ar aelodaeth ostyngedig i ddysgwyr yn y gampfa - gwych pan fyddwch angen ymlacio rhwng dosbarthiadau.

Oeddech chi'n gwybod?

Ym mis Medi 2025, aeth dros 200 o ddysgwyr Lefel 3 ymlaen i'r brifysgol o raglenni Lefel A a Diploma Estynedig.

Dewch i drosoch eich WELD HUN

NOSWEITHIAU AGORED
Dewch draw i un o'n nosweithiau agored i weld ein cyfleusterau ac archwilio'r ystod o gyrsgau sydd ar gael:

07 Ionawr 2026 - Lefelau A
14 Ionawr 2026 - Pob cwrs
Ebrill 2026 - dilynwch ni ar y cyfryngau
cymdeithasol i fod y cyntaf i wybod y dyddiad

TEITHIAU COLEG
Os byddwch chi'n colli ein nosweithiau agored, neu os ydych chi eisiau edrych o gwmpas pan fydd hi ychydig yn dawelach, cysylltwch â'n tîm Derbyniadau i archebu taith:
admissions@pembrokeshire.ac.uk
0800 9 776 788

DIWRNODAU BLASU A PHROFIAD
Cadwch lygad ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol am fanylion am ddiwrnodau blasu a phrofiad yn ystod tymhorau 2 a 3.

DIWRNOD PONTIO
Bydd pawb sydd wedi gwneud cais am gwrs llawn amser yn cael gwahoddiad i fynychu Diwrnod Pontio ar 01 Gorffennaf 2026.

CYRSIAU O CYN-FYNEDIAD I LEFEL 3

100+ CWRS LLAWN AMSER

25 PWNC LEFEL A

20+ O LWYBRAU PRENTISIAETH

Addysg yw'r pasbort i'r dyfodol, oherwydd mae'r dyfodol yn eiddo i'r rhai sy'n paratoi ar ei gyfer heddiw.

Malcolm X

RYDYM YN CYNNIG YSTOD EANG O GYRSIAU
AR WAHANOL LEFELAU. BYDD Y LEFEL Y
BYDDWCH YN EI HASTUDIO YN DIBYNNU
AR EICH CYFLAWNIADAU BLAENOROL A'CH
CANLYNIADAU TGAU.

ESBONIO

Lefelau Cyrsiau

Ar y tudalennau canlynol fe welwch drosolwg byr o'r cyrsiau a gynigiwn, y swyddi y gallent arwain atynt a chyflogau cyfartalog. Ewch i'n gwefan: pembrokeshire.ac.uk am wybodaeth lawn am y cyrsiau gan gynnwys y modiwlau a astudiwyd a'r gofynion mynediad. Os nad ydych yn siŵr pa gwrs fyddai fwyaf addas i chi, ffoniwch ein tim Derbyniadau cyfeillgar ar: 0800 9 776 788 am gyngor ac arweiniad diduedd.



Sganiwch y cod i
ymweld â
pembrokeshire.ac.uk

Dewiswch eich LEFEL

MYNEDIAD A LEFEL 1

Mae ein cyrsiau Lefel Mynediad a Lefel 1 yn addas i chi os nad oes gennych unrhyw gymwysterau ffurfiol. Os na chewch y graddau TGAU yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, yna gallwch ddechrau ar Lefel Mynediad a gweithio'ch ffordd i fyny.

Mae rhai cyrsiau ymarferol yn gofyn i ddysgwyr ddechrau ar Lefel 1 neu Lefel 2, waeth beth fo'u graddau TGAU. Mae hyn er mwyn i chi allu dysgu'r sgiliau sylfaenol cyn symud ymlaen i lefelau uwch neu Brentisiaeth.

LEFEL 2

Mae'r rhan fwyaf o'n cyrsiau Lefel 2 yn gofyn i chi fod wedi cael graddau TGAU gradd D ac mae rhai hyd yn oed yn gofyn i chi fod wedi cyflawni graddau C mewn rhai pynciau. Mae gofynion mynediad pob cwrs yn amrywio felly gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r wefan cyn gwneud cais.

Ar ôl cwblhau eich rhaglen Lefel 2 yn llwyddiannus, gallech symud ymlaen i gwrs Lefel 3, cyflogaeth neu Brentisiaeth.

LEFEL 3

Os byddwch chi'n cyflawni pum TGAU gradd C neu uwch (efallai y bydd angen i chi fod wedi cyflawni graddau B mewn rhai pynciau ar gyfer rhai cyrsiau) gallwch chi fynd yn syth i Lefel 3: Lefelau A neu Ddiploma Estynedig (mae Diplomâu Estynedig yn gyfwerth ag astudio tri phwnc Lefel A ac maent yn gymharol o ran pwyntiau UCAS).

Mae pob rhaglen Lefel 3 yn ddwy flynedd o hyd. Ar ôl cwblhau'n llwyddiannus gallwch chi wneud cais i astudio yn y brifysgol, mynd yn syth i gyflogaeth neu wneud cais am Brentisiaeth.

Dewiswch eich LLWYBR

LEFEL A

Os ydych chi'n hoffi ymchwilio i bynciau, darllen am bynciau i ehangu eich gwybodaeth ac yn dda mewn arholiadau, yna efallai mai Lefelau A yw'r llwybr i chi.

Dewiswch astudio Lefelau A yn y Coleg a gallwch ddewis o 25 o bynciau AS - yr ystod ehangaf yn y sir. Os oes gennych ddiddordeb mewn astudio Lefel A, gweler ein llyfryn Lefel A i gael gwybod mwy.

Dewiswch Lefel A os:

- Rydych chi'n canolbwyntio ar ddysgu yn yr ystafell ddosbarth
- Nid ydych chi'n cael eich poeni gan arholiadau
- Rydych chi eisiau cadw'ch opsiynau gyrfa yn y dyfodol ar agor
- Rydych chi eisiau symud ymlaen i'r brifysgol

CYRSIAU GALWEDIGAETHOL

Mae ein cyrsiau galwedigaethol yn cynnig cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n eich paratoi ar gyfer cyflogaeth mewn sector penodol. Mae ein Diplomâu Estynedig Lefel 3 yn gyfwerth â thri Lefel A ac yn caniatáu i chi symud ymlaen i'r brifysgol.

Ar gyfer llawer o bynciau, byddwch yn cael eich addysgu mewn amgylcheddau dysgu sy'n efelychu'r rhai a welwch mewn diwydiant gan ddarlithwyr sydd â blynyddoedd o brofiad yn y sector.

Dewiswch gwrs galwedigaethol os:

- Rydych chi'n chwilio am sgiliau gwaith i fynd i mewn i ddiwydiant penodol, fel gofal iechyd neu adeiladu
- Rydych chi'n dysgu orau trwy gael profiad ymarferol
- Rydych chi eisiau symud ymlaen i'r gweithle neu'r brifysgol

PRENTISIAETHAU

Rhaglen ddysgu seiliedig ar waith yw hon sy'n eich galluogi i ennill cyflog wrth astudio am gymhwyster a dysgu sgiliau ymarferol yn y gweithle. I ymgymryd â phrentisiaeth mae angen i chi ddod o hyd i gyflogwr sy'n fodlon eich cefnogi drwy gydol y cymhwyster. Os nad oes gennych gyflogwr efallai y gallwn eich helpu i ddod o hyd i un.

Mae pob rhaglen prentisiaeth yn cynnwys cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd oni bai eich bod eisoes wedi'u cael yn yr ysgol.

Dewiswch Brentisiaeth os:

- Rydych chi eisoes yn gwybod pa swydd rydych chi am ei gwneud
- Mae'n well gennych chi ddysgu yn y gweithle yn hytrach nag yn yr ystafell ddosbarth
- Rydych chi eisiau cymhwyster proffesiynol i gefnogi eich profiad gwaith
- Rydych chi eisiau ennill wrth ddysgu

ALLWEDD CYNNYDD:



Cyflogaeth | Prifysgol | Prentisiaeth

Pontio a Chefnogaeth

Yng Ngholeg Sir Benfro rydym yn darparu amgylchedd dysgu cynhwysol sy'n cynnig cefnogaeth i bob dysgwr.

CADW DYSGWYR AR Y TRYWYDD IAWN

Mae pob dysgwr yn cael Tiwtor Personol i sicrhau eu bod yn derbyn lefel gyson a phriodol o gefnogaeth, cyngor ac arweiniad. Gall hyn fod mewn sesiynau grŵp neu ar sail unigol. Mae pob dysgwr yn cytuno i bresenoldeb o 100% ac yn llofnodi cytundeb dysgwr ar ddechrau'r cwrs sy'n cynnwys disgwyliadau'r Coleg o ran ymddygiad cadarnhaol, presenoldeb llawn a chwblhau gwaith yn foddhaol.

AMGYLCHEDD CYNHWYSOL

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd cynhwysol a diogel i bob dysgwr. Rydym yn cynnig cyngor a chefnogaeth ar bob agwedd ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym yn darparu mynediad at ystod eang o dechnolegau a chyfarpar cynorthwyol, yn ogystal ag adnoddau a chyfarpar ffisegol. Rydym yn cynnal Cynlluniau Gwacáu Personol mewn Argyfwng ac Asesiadau Risg ac yn sicrhau bod ein campws yn hygyrch i bob dysgwr.

DARPARIAETH DYSGU YCHWANEGOL

Mae'r Coleg yn mabwysiadu dull cynhwysol ac integredig iawn o gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n dechrau tra byddant yn yr ysgol. Mae trefniadau cynllunio pontio cynhwysfawr ar waith ac fe'u cynhelir mewn partneriaeth ag ystod eang o asiantaethau arbenigol, gan gynnwys Cynghorydd Gyrfa Cymru arbenigol.

Mae tîm Cymorth Dysgu'r Coleg yn gweithio'n agos gyda Chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion. Mae'r aelodau staff hyn yn mynychu adolygiadau ysgol, yn cwrdd â dysgwyr a rhieni neu ofalwyr yn yr ysgol, cyfweiliadau neu ddigwyddiadau agored, ac yn cwrdd â dysgwyr ar eu diwrnodau pontio. Mae trefniadau pontio cryf yn bodoli rhwng yr ysgolion uwchradd a'r Coleg i wneud y pontio mor llyfn â phosibl.

Mae'r Coleg yn cynnig ystod eang o Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol sy'n canolbwyntio ar y person, gan gynnwys er enghraifft Cynorthwydd Dysgu 1:1 neu a rennir, goruchwyliaeth yn ystod amser cinio neu egwyliau, cymorth i ac o gludiant cynorthwyol, a gofal personol. Darperir Cymorth Dysgu gan dros ddeugain o Gynorthwywyr Cymorth Dysgu profiadol.

ASESYDD ARBENIGOL

Bydd Asesydd Arbenigol yn cynnal trefniadau mynediad i arholiadau, proffilio dyslecsia a sgrinio i benderfynu ar natur a lefel y gefnogaeth sydd ei hangen.

DIOGELU A LLESIANT

Mae'r Coleg yn cymryd diogelu a lles o ddifrif iawn ac mae ganddo dîm sefydledig sy'n cynnwys: Uwch Berson Dynodedig, Swyddogion Diogelu a Lles, Nyrs Myfyrwyr, Swyddog Cyllid a Chaplan Rhynggenwadol. Mae'r tîm hefyd yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau allanol i ddarparu atgyfeiriadau, cyngor, arweiniad a chefnogaeth.

POBL IFANC SY'N DERBYN GOFAL (LAYP) A GOFALWYR IFANC

Mae Uwch Berson Dynodedig y Coleg yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau pontio, gofal a chymorth i blant ifanc sy'n cael gofal personol a gofalwyr ifanc. Os ydych chi mewn gofal, yn gadael gofal neu'n ofalwr ifanc, cysylltwch â:

safe@pembrokeshire.ac.uk am gyngor a chymorth.

Allwedd i lwyddiant: Saesneg, Mathemateg a Chymraeg

SGILIAU HANFODOL: MATEMATEG A SAESNEG

P'un a ydych chi'n bwriadu mynd yn syth i gyflogaeth neu symud ymlaen i astudiaeth lefel uwch, mae cyflogwyr a phrifysgolion yn ystyried Saesneg a Mathemateg yn sgiliau hanfodol i'w cael.

Beth bynnag yw eich rhaglen astudio, mae ein darlithwyr a'n staff cymorth dysgu wedi ymrwymo i'ch helpu i wella eich sgiliau darllen, ysgrifennu, cyfathrebu a mathemateg fel y gallwch adael y Coleg gyda'r sgiliau y bydd eu hangen arnoch i symud ymlaen.

GWELLA EICH CYMRAEG

Anogir pob dysgwr yn y Coleg i werthfawrogi'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Bydd dysgwyr sydd wedi cwblhau unrhyw ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hannog a'u cefnogi i gynnal a datblygu'r sgiliau hynny.

Gall pob dysgwr gael mynediad at diwtorialau, sgiliau hanfodol ac agweddau ar eu cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Eich Helpu chi i Gyrraedd eich Nod

Mae cyfleusterau cymorth ar y safle yn cynnwys:

 Gyrfaoedd	 Nyrs Coleg	 Gweithwyr Cymorth Cyfathrebu	 Cynghorwyr
 HWB Lles	 Cyllid Myfyrwyr	 Anogwyr Dysgu	 Cynorthwywyr Cymorth Dysgu
 Swyddogion Diogelu, Llesiant a Disgyblu	 Cynghorwyr Cymorth Sgiliau	 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cefnogaeth	 Anogwyr Bugeiliol
 Hwb Seren UCAS	 Swyddogion Lleoliadau Gwaith	 Gwarcheidwaid	 Gweithiwr Ieuentid

Cyfoethogi Cymrwch Ran

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cyfoethogi i'n dysgwyr sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r amserlen academiaidd. Cefnogir y gweithgareddau hyn gan arbenigwyr, staff a gwirfoddolwyr sy'n ymweld ac maent ar agor i BOB dysgwr y Coleg.

Mae cyfleoedd cyfoethogi hefyd fel crefftau a gemau'r rhan fwyaf o ddyddiau yn yr Atriwm.


Bydd cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi nid yn unig yn cefnogi eich iechyd meddwl a'ch lles, ond bydd hefyd yn eich helpu i wneud ffrindiau newydd, a rhoi cyfleoedd i chi ddysgu sgiliau newydd ac yn bwysicaf oll cael hwyl.

Mae clybiau a chymdeithasau cyfoethogi yn cynnwys::

- Academiâu Chwaraeon a Gweithgareddau Ffitrwydd
- Celf a Chrefft
- Grŵp Pride
- Clwb Dadlau
- Gemau Bwrdd a Chardiau
- Grwpiau Cymorth Iechyd Meddwl
- Dungeons & Dragons
- Clwb Cymraeg
- Dug Caeredin
- Grŵp Gemau
- Man Diogel
- Clwb Croeso
- Treialon Ffug
- Gwersi Cerddoriaeth Beripatetig
- Cerddorfa'r Sir

Roedd yr arbenigwr mewn unrhyw beth yn ddechreuwr ar un adeg.

Helen Hayes



Byddwch yn barod am Brifysgol

Mae Coleg Sir Benfro wedi meithrin enw da am baratoi dysgwyr ar gyfer mynediad i brifysgolion yn y DU a thramor.

Rydym yn arbenigo mewn paratoi dysgwyr ar gyfer eu cyfweiliadau prifysgol a'u cyfarparu â'r wybodaeth i ddilyn y llwybr gradd o'u dewis.

Mae gennym brofiad helaeth o helpu dysgwyr i gael eu derbyn i'r disgyblaethau canlynol:

Busnes | Meddygaeth |
Deintyddiaeth | Economeg |
Peirianeg | Cyfraith | Cyllid |
Mathemateg | Bydwreigiaeth |
Optometreg a Gwyddor Filfeddygol

CYRCHFANNAU PRIFYSGOL MEDI 2025

“

Beth bynnag a ddewiswch ar gyfer llwybr gyrfa, cofiwch mai dim ond eich llunio chi ar gyfer eich pwrpas y bwriedir i'r anawsterau ar hyd y ffordd.

Chadwick Boseman

Dewiswch y **Coleg** i fod yn barod am y **Brifysgol**

— Eich Cefnogi Chi ar gyfer Eich Camau Nesaf —

STAFF ADDYSGU CYMWYS

Mae gan ein staff addysgu gymwysterau academiaidd arbenigol ôl-16 ac arbenigedd gwirioneddol yn y diwydiant. Mae'r cyfuniad hwn yn sicrhau eich bod yn derbyn addysgu o ansawdd uchel sy'n ddiddorol ac yn ysgogol, gan warantu'r dechrau gorau posibl i chi.

VESPA: MEDDYLFRYD LEFEL A

Bydd dysgwyr Safon Uwch yn mynychu tiwtorialau a seminarau yn seiliedig ar y Meddylfryd Safon Uwch. Bydd hyn yn helpu dysgwyr i nodi'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer astudiaeth Safon Uwch lwyddiannus. Mae dysgwyr sy'n dangos pum elfen VESPA: Gweledigaeth, Ymdrech, Systemau, Ymarfer ac Agwedd wedi'u profi i fod yn fwy llwyddiannus.



MWY GALLUOG A THALENTOG (MAT)

Mae pob dysgwr yn derbyn cefnogaeth UCAS. Mae cefnogaeth dargedig hefyd ar gael drwy ein rhaglen MAT ar gyfer cyflawnwyr uchel ac mae panel MAT o academyddion uwch wedi'u dewis i helpu dysgwyr i ddatblygu meysydd rhagoriaeth drwy arweiniad a mentora arbenigol.

CYMORTH

Mae Anogwyr Bugeiliol yn cael eu neilltuo i ddysgwyr ac mae pob dysgwr yn derbyn cefnogaeth diwtorial. Mae'r rhaglen diwtorial yn sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn lefel gyson a phriodol o gefnogaeth, cyngor ac arweiniad. Mae hyn ar sail grŵp ac yn unigol.

EIN CYN-FYFYRWYR ANHYGGOEL O LEFEL A I'R BRIFYSGOL



#BAROD AM BRIFYSGOL

EIN CYN-FYFYRWYR ANHYGGOEL

O DDIPLOMA I'R BRIFYSGOL

#BAROD AM BRIFYSGOL



Freya a Matt - Mae Freya yn astudio Rheoli Busnes ym Mhrifysgol Bath Spa ac mae Matt yn astudio Perfformio a'r Cyfryngau ym Mhrifysgol De Cymru.



Mae **Diplomâu** Galwedigaethol Lefel 3 yn cynnig dewis arall cyffrous ac ymarferol i Lefel A, gan ddarparu'r un lefel academaidd a chyfleoedd dilyniant i brifysgol, prentisiaethau uwch neu gyflogaeth fedrus.

Mae'r cymwysterau hyn wedi'u cynllunio ar gyfer dysgwyr sydd eisoes â gweledigaeth glir o'r sector gyrfa yr hoffent ymuno ag ef - boed hynny'n iechyd a gofal cymdeithasol, busnes, peirianeg, cyfryngau creadigol neu faes arbenigol arall. Drwy gyfuno gwybodaeth fanwl am y pwnc â phrofiad ymarferol yn y byd go iawn, mae diplomâu galwedigaethol yn helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau technegol, yr hyder a'r ddealltwriaeth y mae cyflogwyr a phrifysgolion yn eu gwerthfawrogi.

I fyfyrwyr brwdfrydig sydd eisiau dysgu trwy wneud a chymryd eu camau cyntaf tuag at ddyfodol gwerth chweil, mae Diploma Galwedigaethol Lefel 3 yn ddewis ardderchog.

Eva Rees, Cyfarwyddwr Taith y Dysgwr
Coleg Sir Benfro



Eliza - yn astudio Actoriaeth a Cherddoriaeth yn Leeds Conservatoire

Ben - Tri gradd Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol - Prifysgol i'w benderfynu

Keira - Coleg y Cymoedd yn astudio Teledu a Ffilm: Gwallt, Colur ac Effeithiau Arbennig

Leoni - Prifysgol Caerdydd yn astudio Radiotherapi Diagnostig

Emily - UWE Bryste yn astudio Bydwreigiaeth

Byddwch yn Barod am Ddiwydiant



Rwy'n artist, ac mae gen i'r gallu a'r ewyllys rydd i ddewis y ffordd y bydd y byd yn fy ngweld.

Lady Gaga

Dewis y **Coleg** i fod yn Barod am **Ddiwydiant**

— Sectorau Cyflogaeth Gorau yn Sir Benfro —

AMAETHYDDIAETH

Mae Sir Benfro yn elwa o rai o'r tiroedd amaethyddol o'r ansawdd gorau yng Nghymru ac yn cynnig cyfleoedd i'r rhai sy'n awyddus i ddilyn gyrfa mewn amaethyddiaeth a diwydiannau cysylltiedig.

ADEILADU

Mae crefftau adeiladu yn ffynhonnell allweddol o gyflogaeth yn Sir Benfro gyda dros 740 o gwmnïau yn y sector.

YNNI

Dyma un o'r sectorau mwyaf a chyflymaf sy'n ehangu yn economi Sir Benfro; mae'n cynnwys mireinio olew, prosesu nwy, cynhyrchu pŵer ac ynni adnewyddadwy.

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Mae'r sector gofal iechyd yn Sir Benfro yn parhau i ehangu ac yn darparu ystod eang o gyfleoedd gyrfa. Mae'r GIG yn un o gyflogwyr mwyaf y sir.

LLETYGARWCH A THWRISTIAETH

Yn sector traddodiadol yn Sir Benfro, mae cyflogaeth sy'n gysylltiedig â thwristiaeth bron ddwywaith mor bwysig yn lleol ag ydyw yng Nghymru yn gyffredinol.

CYFANWERTHU A MANWERTHU

Mae tua 694 o gwmnïau'n gweithredu yn y sector hwn gan ddarparu ystod amrywiol o gyfleoedd gyrfa o lefel rheolaeth iau i uwch reolwyr.

Byddwch yn Barod am Ddiwydiant



EICH PARATOI AR GYFER EICH GYRFA DDELFRYDOL

Mae cyflogwyr yn chwilio am fwy na chymwysterau yn unig. Maen nhw eisiau unigolion sy'n gallu gweithio fel rhan o dîm, sydd â sgiliau cyfathrebu gwych, sy'n frwdfrydig, sydd ag agwedd gadarnhaol ac sy'n barod i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen ar eu cyflogwr i wneud i'w busnes dyfu.

SEFWCH ALLAN O'R DORF

Mae pob dysgwr yn gallu cael mynediad i'r Biwro. Mae'r Biwro ar agor bob dydd a bydd y staff cyfeillgar yn eich helpu i greu CV a chwilio am swyddi gwag yn ogystal â'ch helpu i baratoi ar gyfer cyfweiliadau.

YN EICH GWNEUD CHI'N BAROD AR GYFER SWYDD

Rydym yn aml yn gweithio ochr yn ochr â chyflogwyr lleol i sicrhau ein bod yn eich cyfarparu â'r sgiliau maen nhw'n chwilio amdanynt. Mae cyfranogiad cyflogwyr yn amrywio o gwrs i gwrs ond gall gynnwys:

-  Gweithio ochr yn ochr â chogyddion gwadd yn ein ceginau masnachol.
-  Ymgymryd â lleoliadau gwaith yn y GIG.
-  Profiad gwaith yn Folly Farm, Manor House Park a llawer mwy.
-  Sgyrsiau gwadd o'r RAF, y Fyddin, y Llynges Frenhinol ac Academi Chiltern.
-  Profiad gwaith mewn amrywiaeth eang o leoliadau gofal plant a gofal iechyd.
-  Gweithio gyda chwmnïau yn y sectorau olew, nwy, ynni adnewyddadwy a pheirianneg fecanyddol.

Cysylltu chi gyda CHYFLOGWYR...

Mae ein cysylltiadau â chyflogwyr yn golygu eich bod yn cael cipolwg go iawn ar y gwahanol gyfleoedd gyrfa sydd ar gael i chi. Mae'r cyflogwyr rydym yn gweithio gyda nhw yn cynnwys:

Alt yr Afon | Altrad | Blue Gem Wind | Bluestone | Bombora Energy | British Armed Forces | Burns Nutrition | Carreg Construction | Ceredigion County Council | DP Energy
Dragon LNG | Dyfed Powys Police | EDF Energy | Elliotts Hill | Folly Farm | GGT Thomas | Grove of Narberth | Heatherston | Hywel Dda University Health Board
Insite Technical | Jenkins & Davies | Mainstay Marine | Manor Park | Ore Catapult | Park House Care | Pembroke Coast National Park | Pembroke County Council
Pembroke Road Safety Team | Retreats Group | Rhyal Engineering | Slebech Park | St Davids Care in the Community | St Davids Assemblies | St Brides Spa Hotel
The Crown Estate | The Port of Milford Haven | Totally Welsh | United Aerospace | Valero | Williams Shipping

Gyrfaoedd y Dyfodol

Paratowch ar gyfer y Dyfodol

Er bod llawer o yrfaoedd presennol y mae'n debyg y bydd eu hangen arnom ymhell i'r dyfodol fel cogyddion, peirianwyr, pobl chwaraeon, nyrsys a swyddogion heddlu, nid yw llawer o'r gyrfaoedd y byddwch chi'n mynd ymlaen i'w dilyn hyd yn oed yn bodoli eto, dyma rai sydd ar y gorwel:

- RHEOLWR BUSNES DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL**
Ni all deallusrwydd artiffisial werthu ei hun. Bydd y rôl hon yn gyfrifol am hyrwyddo a gwerthu deallusrwydd artiffisial i gwmnïau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.
- MECANIG CEIR HUNAN-YRRIADOL**
Er bod ceir hunan-yrro eisoes ar y gorwel, bydd angen mecanig o hyd er mwyn eu trwsio.
- CANLLAW TWRISTIAETH GOFOD**
Mae teithiau i'r gofod yn dechrau cychwyn gyda dyfodiad Virgin Galactic. Bydd hediadau masnachol i'r gofod yn dod yn gyrchfan gwyliau boblogaidd nesaf.
- ARBENIGWR GWRTHDROI NEWID HINSAWDD**
Bydd brid newydd o beiriannydd/gwyddonwyr yn dod i'r amlwg gyda'r gallu i ailadeiladu ecosystemau o amgylch y blaned, fel coedwigoedd law a gwelyau cefnforoedd.
- AILGYLCHWR SBWRIEL GOFOD**
Bydd y bobl hyn yn nodi'r lleoliadau orbitol lle mae sothach ar ei fwyaf. Yna byddant yn datblygu dulliau cost-efeithiol i'w dynnu o'r orbit.
- FFERMWR FERTIGOL**
Bydd ffermwyr yn defnyddio technoleg i fagu cnydau wedi'u peiriannu'n ofalus a thyfu cnydau'n fertigol i wneud y mwyaf o fannau trefol.
- GLOWR GOFOD**
Mae tanwyddau ffosil ac elfennau prin eraill yn dod i ben ac yn y pen draw byddant yn peidio â bodoli ar ein planed. Gallai glowyr gofod adfer elfennau prin y Ddaear o'r Lleuad neu asteroidau.
- PENNAETH DYLUNIO PERSONOLIAETH PEIRIANT**
Mae awtomeiddio yn gweithio i greu robotiaid sydd â'r un personoliaeth a blas â'r cwsmer.
- AMDDIFFYNNYDD HUNANIAETH RHITHWIR**
Gyda datblygiadau mewn deallusrwydd artiffisial mae'r risg o ddogfennau ffug yn cynyddu. Bydd y rôl hon yn creu dyfrnodau digidol y gellir eu dilysu i brofi'r gwir.

Y cam cyntaf tuag at gyrraedd rhywle yw penderfynu nad ydych chi'n mynd i aros lle rydych chi.

Byddwch yn Barod am **Ddiwydiant** gyda'n rhaglenni **Cyrchfannau**

Mae ein Rhaglenni Cyrchfannau bellach yn rhedeg mewn nifer gynyddol o feysydd cwricwlwm ac wedi'u cynllunio i ategu'r ddarpariaeth cwricwlwm.

Mae'r rhaglenni penodol i'r sector o fudd i'r dysgwyr hynny sy'n edrych i symud ymlaen yn uniongyrchol i gyflogaeth ar ôl cwblhau eu cwrs yn ogystal â'r rhai sy'n edrych i symud ymlaen i'r brifysgol.

Fe'u cynlluniwyd, gyda mewnbwn cyflogwyr, i godi ymwybyddiaeth o anghenion cyfredol y diwydiant ac i amlygu llwybrau gyrfa presennol a rhai'r dyfodol.

Mae'r rhan fwyaf o Raglenni Cyrchfannau yn cynnwys cyfuniad o ddosbarthiadau meistr, siaradwyr gwadd, ymweliadau â diwydiant a phrifysgol.

Yna mae llawer yn cyrraedd uchafbwynt mewn prosiect estynedig ym mlwyddyn dau, i ddatblygu sgiliau ymchwil a chynyddu gwybodaeth.

AR HYN O BRYD RYDYM YN CYNNIG
RHAGLENNI CYRCHFANNAU MEWN:

- GOFAL ANIFEILIAID
- CELFYDDYDAU
- BUSNES
- ADEILADU
- LLETYGARWCH
- IECHYD
- YNNI ADNEWYDDADWY
- TWRISTIAETH



Sganiwch y cod i
ymweld â
pembrokeshire.ac.uk



Ymunais â'r cwrs hwn oherwydd ers pan oeddwn i'n fach, rydw i wedi canfod bod anifeiliaid yn cael eu denu ataf. Rydw i'n hoffi elfen ymarferol y cwrs hwn oherwydd rydw i'n ei chael hi'n therapiwtig ac yn ymlaciol. Rydw i'n gobeithio ymuno â'r heddlu ar ôl y cwrs hwn a dod yn driniwr cŵn.

Lyra, Rheoli Anifeiliaid Lefel 3

SGILIAU Cyflogadwyedd

Rydym yma i'ch helpu i ddatblygu eich Sgiliau Cyflogadwyedd yn barod ar gyfer y gweithle.

Mae sgiliau cyflogadwyedd yn drosglwyddadwy iawn; maent yn ein cefnogi i wneud unrhyw swydd, unrhyw le. Gall y rhai sydd â sgiliau cyflogadwyedd cryf ddisgwyl ennill mwy na'u cyfoedion.

GWAITH TÎM



DATRYN PROBLEMAU



CYFATHREBU



CREADIGRWYDD



ARWEINYDDIAETH



Byddwch yn Barod am Ddiwydiant

Dewch draw i
noson agored, neu
archebwch daith, i
weld ein cyfleusterau
safonol yn y diwydiant
drosoch eich hun.

o Ddysgu i Ennill

Sut i YMGEISIO

Rydym wedi ymrwymo i'ch helpu i
gyflawni eich uchelgeisiau, beth bynnag
y bônt.

Os ydych chi eisoes yn gwybod beth yw
eich gyrfa ddelfrydol, rydym yma i'ch
helpu i gychwyn ar eich llwybr i gyflawni
eich nodau.

Fel rhan o gymuned ein Coleg gallwch
elwa o:

Canllawiau ysgrifennu CV a llythyr eglurhaol

Cyfleoedd gwirfoddoli

Cynghorwyr gyrfaoedd profiadol

Cyfweliadau ffug a pharatoi ar gyfer cyfweliadau

Gweithdai chwilio am swydd

Cymorth gyda cheisiadau UCAS

1.

MYNYCHWCH NOSON AGORED

Rydym yn argymhell eich bod yn mynychu un o'n Nosweithiau Agored
lle gallwch fynd ar daith o amgylch ein cyfleusterau a siarad yn
uniongyrchol â'n darlithwyr a'n timau cymorth. Gallwch hefyd ddod
o hyd i wybodaeth am ein holl gyrsiau ar ein gwefan: pembrokeshire.ac.uk

Os ydych yn ansicr pa gwrs sy'n iawn i chi, mae ein Tîm Cyngor ac
Arweiniad cyfeillgar bob amser wrth law yn ogystal â Gyrfa Cymru.

Edrychwch ar ein gwefan am fanylion Nosweithiau Agored sydd ar
ddod.

2.

GWNEWCH GAIS AR-LEIN

Gwnewch gais drwy ein gwefan - chwiliwch am eich cwrs ac yna
gwnewch gais ar-lein. Bydd angen i chi greu cyfrif a fydd yn caniatáu
ichi olrhain eich cais.

Os oes angen rhywfaint o help arnoch i gwblhau eich cais, gwnewch
apwyntiad i weld ein tîm Derbyniadau drwy ffonio: 0800 9 776 788

3.

DEWCH I GWRDD Â NI

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwch yn cael
gwahoddiad i fynychu un o'n digwyddiadau gwybodaeth lle bydd
darlithwyr pwnc yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am y cwrs.

Yn olaf, gofynnir i chi uwchlwytho eich canlyniadau, ac os ydych wedi
bodloni amodau eich cynnig, byddwch yn derbyn e-bost yn rhoi
gwybod i chi am eich diwrnod cyntaf yn y Coleg.

Twf Swyddi Cymru +



CYRSIAU

Gallwch ddewis o amrywiaeth o feysydd pwnc gan gynnwys:
**Busnes, Hamdden a Thwristiaeth | Peirianeg a Modurol
 Harddwch, Trin Gwallt, Celfyddydau, Gofal Plant ac Iechyd |
 Technoleg Gwybodaeth**

CAEL BLAS O'CH GYRFA YN Y DYFODOL

Mae Twf Swyddi Cymru+ yn rhaglen hyblyg sy'n canolbwyntio ar helpu pobl ifanc 16-19 oed sydd wedi ymddieithrio o ddysgu i gyrraedd eu potensial llawn a chymryd eu camau cyntaf i fyd gwaith.

Nod ein rhaglenni yw rhoi'r sgiliau, y cymwysterau a'r profiad gwaith sydd eu hangen arnoch i gael swydd neu symud ymlaen i ddysgu pellach neu brentisiaeth.

Mae'r rhaglen hon yn cynnig amgylchedd dysgu hollol wahanol ac fe'i cyflwynir gan dim cyfeillgar a phrofiadol sydd wedi ymrwymo i'ch gweld chi'n llwyddo.

Cysylltwch â'n tîm derbyniadau am ragor o wybodaeth:
 admissions@pembrokeshire.ac.uk
 0800 9 776 788

ENNILL WRTH DDYSGU

Tra byddwch ar raglen JGW+ byddwch yn cael eich talu

i hyfforddi. Os byddwch yn mynychu'r 21 awr lawn yr wythnos byddwch yn cael eich talu £42 yr wythnos ynghyd â lwfans prydau bwyd.

CYMORTH WEDI'I DEILWRA

Bydd gennych fentor i'ch cefnogi tra byddwch ar y rhaglen.

ENNILL SGILIAU GO IAWN

Fel rhan o'n holl lwybrau JGW+ byddwch yn ennill sgiliau go iawn y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt i gynyddu eich cyflogadwyedd.



Llywodraeth Cymru sy'n arwain rhaglen Twf Swyddi Cymru+.

Dilyniant:

Ar ôl cwblhau llwybr Twf Swyddi Cymru+ yn llwyddiannus, gall dysgwyr symud ymlaen i raglenni addysg bellach lefel uwch, prentisiaethau neu gyflogaeth.

Prentisiaethau



**YSTOD CYFLOG CYFARTALOG:
£20,000 - £100,000**

ENNILL A DYSGU GYDA PHRENTISIAETH

Mae prentisiaethau ar gael mewn nifer gynyddol o sectorau ac maent yn caniatáu ichi ennill cyflog wrth barhau â'ch addysg.

Fel rhan o Brentisiaeth byddwch yn dysgu ar y gwaith ac oddi ar y gwaith gan ymgymryd â rhaglen hyfforddi strwythuredig a fydd yn arwain at gymhwyster prentisiaeth cydnabyddedig.

Hyfforddiant ar y gwaith - byddwch yn cael eich cyflogi gan gwmni ac yn gweithio ochr yn ochr ag aelodau staff mwy profiadol i ddysgu'ch crefft.

Hyfforddiant oddi ar y gwaith - mae gennym amrywiaeth o fodelau cyflwyno a bydd rhai prentisiaethau'n gofyn ichi fynychu'r Coleg un diwrnod yr wythnos i ddysgu'r theori. Disgwylir i chi hefyd gwblhau asesiadau ar-lein ac asesiadau yn y gweithle..

FFEITHIAU PRENTISIAETH:

Teimlai 92% o brentisiaid mewn gwaith fod eu prentisiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar eu gyrfa.

Dywedodd 92% o brentisiaid fod eu rhagolygon gyrfa wedi gwella.

Mae 90% o brentisiaid yn parhau i fod mewn cyflogaeth ar ôl cwblhau eu prentisiaeth.

Gallai Prentisiaid Uwch ennill £150,000 yn fwy ar gyfartaledd dros eu hoes o'i gymharu â'r rhai â chymwysterau galwedigaethol Lefel 3.

CYRSIAU

Modurol - Lefel 2, 3

Gweinyddu Busnes - Lefel 2, 3, 4

Gofal Plant a Gwaith Chwarae - Lefel 2, 3, 4, 5

Adeiladu: gosod brics, gwaith coed, trydanol, gwaith coed neu blymio - Lefel 3

Techneg Adeiladu - Lefel 3

Gwasanaeth Cwsmeriaid - Lefel 2, 3, 4

Peirianeg (llwybrau amrywiol) - Lefel 2, 3

Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Lefel 2, 3, 4, 5

Rheoli ILM - Lefel 2, 3, 4, 5

Addysgu, Dysgu a Datblygu - Lefel 2, 3

Angen gwybod:

I ymgymryd â phrentisiaeth bydd angen i chi fod mewn cyflogaeth lawn-amser gyda busnes a all eich cefnogi. Efallai y bydd y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau neu'r Biwro yn y Coleg yn gallu eich helpu i ddod o hyd i gyflogwr.

Lefel A: 25 o bynciau

Bioleg
Astudiaethau Busnes
Cemeg
Gwyddor Gyfrifiadurol
Astudiaethau Drama a Theatr
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg
Llenyddiaeth Saesneg
Celfyddyd Gain
Ffrangeg
Mathemateg Bellach
Daearyddiaeth
Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
Hanes
Y Gyfraith
Mathemateg
Astudiaethau'r Cyfryngau
Cerddoriaeth
Ffotograffiaeth
Addysg Gorfforol
Athroniaeth, Moeseg, Credoau a
Gwerthoedd
Ffiseg
Seicoleg
Cymdeithaseg
Sbaeneg
Cymraeg - Ail iaith



Dysgwr Lefel A Harry



AGOR BYD O GYFLEOEDD

Yng Ngholeg Sir Benfro, rydym yn cyflogi staff addysgu cymwys sydd â chymwysterau academaidd arbenigol ôl-16 ac arbenigedd gwirioneddol yn y diwydiant. Mae'r cyfuniad hwn yn sicrhau eich bod yn derbyn darpariaeth o ansawdd uchel sy'n ddiddorol ac yn ysgogol, gan warantu'r dechrau gorau posibl i chi ar lefel uwch.

Y RHAGLEN LEFEL-A

Mae dau lwybr y gall ein dysgwyr Lefel A ddewis ohonynt:

- Llwybr 1: 3 phwnc Lefel A a Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru
- Llwybr 2: 4 phwnc Lefel A a Chymhwyster Prosiect Estynedig dewisol (EPQ) (rhaid cael 6+ A* yn TGAU)

Yn ogystal â'ch astudiaeth academaidd, mae pob dysgwr

Lefel A yn mynychu tiwtorial grŵp wythnosol ac apwyntiadau 1:1 gyda'u Anogwr Bugeiliol pwrpasol.

Mae ein hamserlen wythnosol pedwar diwrnod yn cyfuno dewis ehangaf y sir o bynciau Lefel A gydag amser wedi'i ddiogelu ar gyfer academaïau chwaraeon a chyfleoedd cyfoethogi eraill, ynghyd â diwrnod astudio annibynnol heb unrhyw golled i amser cwricwlwm..

CYFLEUSTERAU

Ar Lefel A, bydd gennych fynediad at gyfleusterau o safon y diwydiant. Mae gennym labordai pwrpasol, ystafelloedd TG/MAC, Theatr Myrddin, stiwdios creadigol ac ystafelloedd dosbarth modern. Gyda llawer o fannau astudio a chymdeithasu i ddewis ohonynt, gall eich amser ar y campws fod yn bwrpasol ac yn bleserus.

Cyrchfannau Prifysgol:

Prifysgol Rhydychen | Prifysgol Caergrawnt | Prifysgol Bryste |
Prifysgol Warwick | Prifysgol Leeds | Prifysgol Lerpwl |
Prifysgol Caerwysg | Prifysgol Caerdydd | Prifysgol Durham

Mae astudio Lefel A mewn Mathemateg, Cemeg a Busnes wedi bod yn brofiad gwych! Rydw i wedi gwneud ffrindiau newydd gwych, mae'r gefnogaeth gan y tim Lefel A yn anhygoel ac mae'r cyfleusterau'n anhygoel. Ar ôl y coleg, rydw i'n gyffrous i astudio Peirianeg Gemegol ym Mhrifysgol Abertawe.

Harry, Lefel-A

Rheolaeth Anifeiliaid ac Amaethyddiaeth



YSTOD CYFLOG CYFARTALOG:
£19,000 - £60,000



Dysgwr Rheolaeth Anifeiliaid Cameron



Dewisais y cwrs Rheolaeth Anifeiliaid gan fy mod i wedi mwynhau gweithio gyda gwahanol fathau o anifeiliaid erioed. Rwy'n bwriadu dod yn geidwad sw yn y dyfodol.

YN ÔL I NATUR

Dewiswch Reolaeth Anifeiliaid a chewch gyfle i ddatblygu sgiliau ymarferol drwy weithio gydag amrywiaeth o famaliaid, adar ac ymlusgiaid bach a mawr yn ein canolfannau yn Witybush a Folly Farm. Efallai y byddwch hefyd yn gallu ymgymryd â lleoliadau gwaith i wella eich gwybodaeth am anifeiliaid domestig, egsoftig a gwyllt ymhellach.

Dewiswch Amaethyddiaeth a byddwch yn mynd o gwmpas ledled Sir Benfro gan ddefnyddio'r amgylchedd o'n cwmpas i ddatblygu sgiliau mewn cadwraeth a rheoli cefn gwlad. Byddwch yn dysgu gweithredu tractor, gweithio yn yr awyr agored ochr yn ochr â Fferm Willhome, helpu i gynnal gwarchodfeydd natur a dysgu sgiliau offer. Mae hyn yn wych i'r rhai sy'n caru bod yn yr awyr agored!

CYFLEUSTERAU

Bydd gan ein dysgwyr Rheolaeth Anifeiliaid Lefel 3 fynediad i Ganolfan Ddysgu John Burns yn Llwynhelyg a Chanolfan Ddysgu Coleg Sir Benfro yn Fferm Folly. Bydd dysgwyr Blwyddyn 1 yn gallu mynd i'r parc ar gyfer arsylwadau i ategu eu damcaniaeth ac mae gan ddysgwyr Blwyddyn 2 fynediad unigryw i weithio ochr yn ochr â'r ceidwaid i ddatblygu sgiliau ymarferol gyda'u hamrywiaeth eang o anifeiliaid.

Bydd ein dysgwyr Gofal Anifeiliaid Lefel 1 a Lefel 2 wedi'u lleoli rhwng y prif gampws a Chanolfan Ddysgu John Burns yn Llwynhelyg.

CYRSIAU

Astudiaethau Tir (Gofal Anifeiliaid) - Lefel 1
Amaethyddiaeth - Lefel 2
Gofal Anifeiliaid - Lefel 2
Rheoli Anifeiliaid - Lefel 3
